Crynodeb o Gyfarfod y Bwrdd Teithio Llesol

2 Chwefror 2017

Rôl Teithio Llesol yn y Metro ac ym Masnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau (Trafnidiaeth Cymru)

Rhoddodd Elen King o Drafnidiaeth Cymru gyflwyniad i'r Bwrdd ar y broses gaffael ar gyfer Metro De Cymru a'r olynydd i Fasnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau. Cyfeiriodd hefyd at yr amserlenni ar gyfer pob un o gamau'r broses. Mae teithio llesol yn un o 12 o flaenoriaethau y bydd yn rhaid i bawb eu cynnwys wrth ddatblygu'u cynigion.

Trafododd y Bwrdd amryfal elfennau'r broses a sut y mae teithio llesol yn cael ei ystyried, gan gynnwys y posibilrwydd o gynnal digwyddiad ymgysylltu ar gyfer yr holl gynigwyr i ddangos pa mor bwysig yw teithio llesol.

Gofynnodd Trafnidiaeth Cymru i'r Bwrdd hyrwyddo'r digwyddiadau ymgynghori.

Diweddaru Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG)

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Bwrdd am y gwaith sy'n mynd rhagddo i ddiweddaru'r Canllawiau a sut y bydd hynny'n helpu gyda chynlluniau yn y dyfodol. Trafodwyd camau gwahanol WelTAG a sut y gellir eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth o brosiectau. Awgrymwyd bod aelod o'r Bwrdd yn ymuno â'r grŵp defnyddwyr a fydd yn cael ei ffurfio ar ôl yr ymgynghoriad. Bydd y grŵp defnyddwyr hwnnw yn mynd ati'n rheolaidd yn y dyfodol i ddiweddaru'r Canllawiau.

Bydd yr ymgynghoriad ar y Canllawiau yn dod i ben ar 2 Mawrth 2017.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Rhoddwyd trosolwg i'r Bwrdd o rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac aed ati hefyd i amlinellu'r cefndir, gan esbonio pam iddynt gael eu sefydlu a'r hyn y maent yn ei wneud.

Trafododd y bwrdd amryfal agweddau ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys amserlenni, y rôl bwysig y gall teithio llesol ei chwarae wrth wella llesiant, gan ofyn hefyd a fydd arferion gorau’n cael eu rhannu. Cytunwyd y byddai dolenni at asesiadau llesiant yn cael eu hanfon at aelodau’r Bwrdd er gwybodaeth iddynt.

Teithio Llesol yng Nghaerdydd

Rhoddwyd cyflwyniad ar Strategaeth Beicio Caerdydd a sut y mae’n datblygu eu Mapiau Rhwydwaith Integredig ac yn ennyn diddordeb pobl ynddynt. Bydd yr ymgynghoriad yn parhau tan 28 Mawrth. Trafodwyd sut i annog y bobl hynny nad ydynt

yn defnyddio dulliau teithio llesol i gerdded neu i feicio, a thrafodwyd pwysigrwydd seilwaith hefyd.

Trafododd y Bwrdd y posibilrwydd o wrthdaro rhwng y strategaeth diogelwch ar y ffyrdd a theithio llesol, pwysigrwydd ymgynghori â grwpiau mynediad lleol a sut y bydd y cynlluniau sydd gan Gaerdydd ar hyn o bryd yn cyd-fynd â'r Metro.

Dywedodd aelodau'r Bwrdd eu bod yn gwerthfawrogi cael clywed yn uniongyrchol wrth awdurdod lleol a phwysleisiwyd pa mor bwysig yw rhannu arferion gorau. Gofynnodd yr aelodau'r i'r Ysgrifenyddiaeth wahodd awdurdodau lleol eraill, o ardaloedd lleol o bosibl, i wneud cyflwyniadau.

UFA

i. **Ysgolion yr 21ain Ganrif**

Rhoddodd aelod o staff a oedd yn cynrychioli adran Addysg Llywodraeth Cymru drosolwg o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, sy'n cyllido cyfleusterau addysg newydd a gwell, gan dynnu sylw at y buddsoddiad presennol a'r buddsoddiad sydd ar y gweill a sut y bydd yn berthnasol i fwy nag un maes polisi. Bydd y canllawiau a anfonir at awdurdodau lleol i'w helpu i baratoi achosion busnes yn cael eu hailddraffio a byddant yn cael eu cyhoeddi'n fuan.

Gwnaeth y Bwrdd drafod sut y byddent yn ymwneud â Chwaraeon Cymru er mwyn cefnogi'r cyswllt rhwng gweithgarwch corfforol a chyrhaeddiad academaidd a sut y gallai ysgolion fanteisio ar gyllid SRIC er mwyn gwella mynediad at eu lleoliadau. Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch cynnwys teithio llesol yn y broses fonitro.

Gwnaeth aelod o'r Bwrdd gynnig cymorth o ran sut y gellir newid ymddygiad a bydd yn cael ei ychwanegu at restr gyswllt y Grŵp Craffu ar Achosion Busnes.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 15 Mehefin 2017